# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 15fed o Ebrill 2024 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Alan H. Jones (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Geraint Evans, Richard Jones Evans, Richard C Evans, Geraint Edwards

1. Ymddiheuriadau: Cynghorydd Bethan Lawton a'r Cynghorydd Arwel Pierce

2. Datgan diddordeb: Eitem 11 - Cynghorydd Geraint Edwards - ymgynghoriad cyn-cyflwyno cais cynllunio

3. Cyflwyniad - EcoDyfi:

Nid oedd swyddogion EcoDyfi yn bresennol.

**PENDERFYNIAD:** I ail-drefnu cyflwyniad gyda'r swyddogion.

4. Derbyn cofnodion 18 Mawrth 2024:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.

5. Derbyn cofnodion 22 Mawrth 2024:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.

6. Derbyn cofnodion 8 Ebrill 2024:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.

7. Cais gan aelod o'r cyhoedd am ardd gymunedol yng nghae chwarae Bryncrug:

Nid oedd diweddariad.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

8. Cyfrifon i'w talu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| B Gwilym | Cyflog | 101890 | £228.66 |
| Cyllid a Thollau EM | YG | 101891 | £57.00 |
| Y Ganolfan | Llogi ystafell | 101892 | £180.00 |
| Cyngor Gwynedd | Archwilio mewnol | 101893 | £480.00 |

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r anfonebau uchod.

9. Geldards Cyfreithwyr - trosglwyddo tir (cae chwarae) i Elusen R.J.Roberts:

Adroddwyd bod y trosglwyddiad wedi digwydd a bod angen talu anfoneb y cwmni am y gwaith. Nodwyd bod y cwmni yn cynnig lleihau'r ffi.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
I rannu'r costau cyfreithiol 50:50 rhwng y cyngor a'r elusen.

10. Cyngor Gwynedd - Adran Tai ac Eiddo - Gwahoddiad: Tai ar Daith:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

11. NJ Planning - Ymgynghoriad cyn gwneud cais cynllunio - Ffordd y Felin, Bryncrug, LL36 9NT:

Bu i'r Cynghorydd Geraint Edwards ddatgan buddiant nad oedd yn rhagfarnu – sef ei fod yn berchen ar dŷ sydd yn agos i'r safle datblygu arfaethedig – a bu iddo aros yn y cyfarfod a chyfrannu i'r drafodaeth.

**PENDERFYNIAD:** Nodwyd bod pryder am fynediad i'r ffordd, nid oes angen yn y pentref am y nifer o dai sydd yn y cynllun, y datblygiad yn rhy fawr i'r pentref.

12. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - ymgynghoriad ar Gyfarwyddyd Erthygl 4:

**PENDERFYNIAD:** Barn y cyngor yw na fydd cyflwyno Erthygl 4 yn gweithio er lles pobl leol. Cyngor Gwynedd yn y broses o gyflwyno Erthygl 4 ac awgrym y cyngor yw y dylai APCE oedi ac aros i weld sut mae Erthygl 4 yn gweithio o fewn ffiniau cynllunio Cyngor Gwynedd - gan edrych ar beth oedd yn gweithio a ddim yn gweithio - a byddai'r cyngor cymuned mewn sefyllfa well i gyflwyno sylwadau ar ôl edrych ar gynllun Gwynedd.

13. Y Ganolfan - ymateb i gynnig o lun y brenin Siarl III:

Adroddodd y Clerc ei fod wedi archebu copi o'r llun gan fod amserlen dynn er mwyn cyflwyno cais ac yn ddiweddarach bod pwyllgor rheoli'r Ganolfan wedi ymateb i ddweud nad oeddynt am arddangos y portread.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth ac i gadw'r llun yn ddiogel yn y storfa pan fydd yn cyrraedd.

14. Trosglwyddo cyfrifoldeb am ffôn symudol y cyngor:

**PENDERFYNIAD:** Y cyngor i ofyn i'r clerc newydd os yw'n dymuno cael y ffôn symudol ar gyfer defnydd gwaith.

15. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:
-y Pafiliwn yn lan iawn
-drws i doiled y merched ddim yn cau yn iawn
-angen postyn newydd ar y canllaw sydd o amgylch y cae pêl-droed
-angen gennyn ni newydd
-y pergola yn beryglus ac angen ei ddymchwel
-eiddew yn tyfu ar do'r sied tu ôl i'r Pafiliwn
-darlleniad y mesurydd trydan ydy 1491 wedi ei ddarllen ar 14/04/24

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
I ddiolch i'r Cyng. Geraint Evans am lanhau'r toiledau.

16. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Nid oedd y cynghorydd sir yn bresennol.

Nodwyd bod gyrwyr cerbydau gyriant pedair olwyn yn defnyddio llwybrau "Green Lanes" fel gweithgaredd hamdden ac yn creu difrod i'r llwybrau, gyda'r gost atgyweirio yn disgyn ar y trethdalwr lleol. Nodwyd hefyd nad oedd y modurwyr yma yn cyfrannu llawer i'r economi leol.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 7:48pm

Llofnod y Cadeirydd ..........................................................